

Canllawiau ar apelïadau sy'n ymwneud â graddau wedi'u cyfrifo ar gyfer dysgwyr UG/Safon Uwch.

O ganlyniad i ganslo'r arholïadau'r haf oherwydd pandemig COVID-19 eleni, bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael graddau wedi'u cyfrifo yr haf hwn. Cyfrifwyd eich gradd eleni gan ddefnyddio model safoni ystadegol. Mae canllaw llawn i safoni graddau i'w weld ar wefan CBAC.

Beth i'w wneud os ydych yn tybio bod gwall wedi bod wrth bennu eich gradd?

Os ydych yn teimlo eich bod wedi cael y radd anghywir, y cam cyntaf y dylech ei gymryd yw trafod hyn yn anffurfiol gyda phennaeth yr ysgol. Yn dilyn hyn, os ydych yn dal i deimlo bod gennych sail i apelio ar sail y meini prawf isod, dylech gyflwyno'ch apêl yn ysgrifenedig i'ch Pennaeth Ysgol cyn 21 Awst 2020. Mae hyn er mwyn galluogi'r Coleg i gadw at derfynau amser apelio CBAC. Cofiwch mai dim ond y Coleg all apelio ar eich rhan.

Gellir apelio ar sail un neu fwy o'r canlynol yn unig:

- Gwall y Coleg: Roedd gwall gweinyddol yng Ngraddau'r Ganolfan Asesu neu'r Drefn Restrol a gyflwynwyd i CBAC.
- Gwall a wnaed gan CBAC wrth gyfrifo neu gyhoeddi canlyniadau, a all gynnwys:
 - o Defnyddiodd CBAC set ddata anghywir at ddibenion safoni ystadegol;
 - o Cyflwynodd CBAC wall yn y set ddata;
 - o Mae CBAC wedi gwneud gwall gweinyddol wrth gyhoeddi canlyniad.
- Amgylchiadau eithriadol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael o fewn 'Canllaw Canlyniadau ac Apeliadau' CBAC ar eu gwefan.
- Seiliau gweithdrefnol: Nid oedd CBAC yn cymhwyso'u gweithdrefnau safoni neu apelio yn gyson, neu ni ddilynwyd y gweithdrefnau'n gywir ac yn deg.

Nid oes modd apelio ar sail y rhesymau a ganlyn:

- Rydych yn anghytuno â gradd y ganolfan asesu a/neu'r safle yn y drefn restrol.
- Barn broffesiynol a wnaed gan eich athro/darlithydd.
- Y model(au) safoni a ddefnyddir.

Beth yw'r broses apelio?

Os yw'r Coleg o'r farn nad oes sail i ni apelio ar eich rhan, bydd hyn yn cael ei gyfleu i chi drwy e-bost. Os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch gwyno gan ddefnyddio Polisi Cwynion y coleg cyn belled â bod gennych dystiolaeth nad yw'r broses apelio wedi'i dilyn. Ni allwch ddefnyddio'r Polisi Cwynion i herio eich gradd, dim ond y broses a ddilynir.

Os bydd y coleg yn cytuno bod gennych sail i apelio, byddwn yn cyflwyno cais i CBAC ar eich rhan a fydd wedyn yn mynd drwy Adolygiad Cychwynnol gan CBAC. Gall hyn gymryd hyd at 42 diwrnod calendr i'w gwblhau wedi i CBAC dderbyn y cais. Os ydych yn aros i gadarnhau lle mewn prifysgol, bydd y coleg yn cyflwyno'r cais am apêl cyn gynted ag y bo modd ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, ac felly'r dyddiad cau i gyflwyno eich apêl i'r coleg yw 21 Awst.

Beth os wyf yn credu bod gwall gyda fy ngraddau o hyd yn dilyn 'Adolygiad Cychwynnol CBAC'?

Ar ôl i CBAC roi gwybod i ni am y canlyniad, byddwn yn eich hysbysu am ganlyniad CBAC. Os ydych chi a'r Coleg yn credu bod gwall yn dal i fod yn y broses gan CBAC, mae gennym 14 diwrnod calendr o dderbyn y canlyniad i wneud cais am 'Adolygiad Annibynnol'. Fel yr 'Adolygiad Cychwynnol', gall gymryd hyd at 42 diwrnod calendr i CBAC gwblhau hyn o'r dyddiad y maent yn derbyn y cais.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer apêl?

Gall y coleg wneud apêl o'r Diwrnod Canlyniadau, a'r dyddiad cau terfynol ar gyfer apêl yw 17 Medi 2020, felly'r dyddiad cau mewnol yw 21 Awst. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau ar gyfer apêl a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.

A all fy ngraddau fynd yn is yn dilyn apêl?

Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol, yn dilyn apêl, y gall eich canlyniadau fod yn uwch, yn is neu fe allant aros yr un fath. Os yw'r coleg yn mynd i gyflwyno cais am apêl ar eich rhan, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod wedi rhoi caniatâd yn ysgrifenedig i ni wneud hynny. Felly, dylech drafod hyn yn llawn gyda'ch Pennaeth Ysgol cyn cytuno gwneud apêl.

Awst 2020.